999

(dewrder / penderfyniad)

"Mi ydw i'n mynd rŵan," gwaeddodd Manon ar ei gŵr, "a phaid â bod yn hir. Mi fydda i'n disgwyl amdanat ti yn y maes parcio ymhen rhyw ddwy awr. Cofia di, paid â bod yn hwyr." A dyna glep ar y drws.

"Mi ga i ddigon o amser i newid y teiar yma felly," meddai John wrtho'i hun. "Wyt ti am ddod i weld Dad yn newid teiar y car?" gofynnodd i Ianto, oedd yn bedair oed y diwrnod hwnnw.

"Ga i newid y teiar?" gofynnodd Ianto i'w dad.

"Na, chei di ddim gosod y teiar newydd ond fe gei di wylio Dad yn gosod y teiar." Rhoddodd John ei ddillad gwaith amdano a rhoi cot a chap i Ianto a ffwrdd â'r ddau allan am y garej.

Ar ôl tynnu'r jac o gist y car a'i osod o dan y car wrth ymyl y teiar ôl dyma ddechrau arni i godi'r car oddi ar y llawr. Yn araf gwelai Ianto fod y car yn codi o dipyn i beth. Yn araf, llaciodd John y pedair bollt oedd yn dal yr olwyn a'i thynnu'n rhydd. "Mae'n well i mi edrych ar y beipen ecsôst hefyd tra ydw i yma," meddai John wrtho'i hun.

Ar ôl i John godi'r car i gael digon o le i wthio oddi tano i weld a oedd y beipen ecsôst yn iawn aeth ar ei gefn ar lawr a llithro yn araf o dan y car.

A dyna lle roedd Ianto ar ei fol ar lawr, ar y lawnt yn gwylio'i dad o dan y car. Yn sydyn, dyma sŵn crinjan a dyma'r jac yn troi ar ei ochr a dyma'r car yn syrthio ar gorff John. Doedd Ianto ddim yn siŵr iawn beth oedd wedi digwydd. Gwaeddodd John ar ei fab,

"Ianto, Ianto lle rwyt ti? Wyt ti'n iawn?"

"Mi ydw i yn fan'ma."

"Gwrando rŵan," meddai John, "mae'r car yma wedi syrthio arna i a fedra i ddim symud oddi yma. Wnei di fynd i'r tŷ a defnyddio'r ffôn?"

"Pam wyt ti isio ffonio?" gofynnodd Ianto'n ddiniwed.

"Wel mae Dad yn sownd o dan y car ac felly mae'n rhaid cael rhywun i ddod yma i 'nghael i'n rhydd. Nei di bwyso 9 dair gwaith?"

"Be ydi 9? Hwnna efo pen crwn a choes hir?"

"Ie, dyna chdi. Nei di bwyso 9 dair gwaith a deud lle wyt ti'n byw – 10, Ffordd Tudur, a deud bod Dad wedi'i ddal o dan y car."

Rhedodd Ianto i'r tŷ a rhoddodd ei fys bychan ar y ffigwr 9, dair gwaith. Daeth llais dyn a gofyn,

"Pa wasanaeth?"

"Ma . . . ma . . . Dad wedi mynd yn sownd o dan y cal yn y galej," meddai Ianto.

"Lle wyt ti'n byw?" gofynnodd y llais ar y pen arall.

"10, Ffoldd Tudul, Rhosfawl," meddai Ianto

"Dos di yn ôl at dy dad a deud wrtho fod y frigâd dân ar y ffordd," meddai'r llais wrtho. Rhoddodd Ianto'r ffôn yn ôl a rhuthrodd allan â'i wynt yn ei ddwrn.

"Dad, Dad, mae'l injan dân al y ffoldd, lwân." Ymhen dim roedd corn yr injan i'w chlywed yn y pellter. Cyn pen dim roedd tri dyn yn rhedeg i fyny'r llwybr tua'r garej. Cyn fawr o dro roedden nhw wedi codi'r car a rhyddhau John.

"Mi wyt ti'n hogyn arbennig iawn," meddai'r prif swyddog tân wrth Ianto a rhoddodd ei het ar ei ben. Cyn i'r injan dân ffarwelio cafodd Ianto fynd i mewn gyda'r dynion i weld popeth oedd yno.

Adnod: "Y mae ef yn gofalu drosoch." 1 Pedr 5:7

Gweddi: O Dduw, gwna fi'n berson dewr, yn enwedig pan fydda i'n wynebu peryglon. Amen.

Trafod:

- Tybed a oedd John yn gwneud peth doeth yn trin ei gar yn y garej?
- Faint ydych chi'n ei wybod am waith y gwasanaethau brys – heddlu, ambiwlans a'r gwasanaeth tân?